| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Mehefin 2018** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Hugh Evans/ Graham Boase** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams** |
| **Teitl:** | **Gweledigaeth Twf a Strategaeth ar Gyfer Economi Gogledd Cymru: Trefniadau Llywodraethu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn am Drefniadau Llywodraethu sydd ei angen er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol, a rhoi pwerau gwneud penderfyniadau i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda chyfyngiadau penodedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I gael cymeradwyaeth y Cabinet o'r Trefniadau Llywodraethu hyd ag y mae'n berthnasol i drefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar y trefniadau anweithredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod cynnydd ar ddatblygiad Cais Bargen Twf yn cael ei nodi a'i groesawu.

3.2 Bod cam cyntaf y Trefniadau Llywodraethu yn cael ei gymeradwyo, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cyngor ar drefniadau anweithredol e.e. y trefniadau ar gyfer Craffu.

3.3 Y cyflwynir drafft terfynol y Cais Bargen Twf i'r Cyngor ar gyfer ei adolygu a'i gydsynio ym mis Medi/Hydref cyn y broses lle gyrhaeddir Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.

3.4 Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Parth Cyhoeddus a Pennaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r arweinydd er mwyn cwblhau telerau'r Trefniadau Llywodraethu yn unol â'r drafft sydd ynghlwm yr adroddiad hwn

3.5 Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r trefniadau gweithredol gyda'r Cytundeb Llywodraethu ac yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo eu cynnwys yn y Cyfansoddiad ynghyd â threfniadau anweithredol sy'n ymwneud â Chraffu.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Ym mis Medi 2016, mabwysiadodd y Cabinet y "Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" sy'n gosod uchelgais cyfunol a strategol ar gyfer Gogledd Cymru.

Cafodd y Strategaeth ei fabwysiadu'n debyg gan y Cabinet mewn 5 Awdurdod Lleol yn y rhanbarth.

Ym mis Chwefror 2017 cafodd y Cabinet eu hysbysu bod Gogledd Cymru wedi cael eu gwahodd yn swyddogol i ddatblygu'r strategaeth i Gais Bargen Twf ar gyfer buddsoddiad a chyflwyno pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Ar yr amser hwnnw, cytunwyd mai pwyllgor statudol unedig fyddai'r model orau o lywodraethu.

Ym mis Medi 2017 cadarnhaodd y Cabinet ei gefnogaeth i'r model pwyllgor unedig ac awdurdodwyd yr Arweinydd i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar bwyllgor unedig "cysgodol" yn y cyfnod interim.

**Mae'r adroddiad hwn am Drefniadau Llywodraethu yn ofynnol er mwyn ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol, a rhoi pwerau gwneud penderfyniadau i'r pwyllgor unedig gyda chyfyngiadau penodedig.** Enw'rpwyllgor fydd 'Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru"

Bydd Cabinet y 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn ystyried cynnwys yr adroddiad templed sydd ynghlwm yr adroddiad hwn fel Atodlen 1. Mae'r atodlen hon yn rhoi manylion pellach am gefndir y trefniadau llywodraethu.

Mae Trefniadau Llywodraethu Drafft, sydd ynghlwm yr adroddiad hwn fel Atodlen 2, yn delio â threfniadau gweithrediaeth ac anweithredol, felly bwriedir cyflwyno adroddiad tebyg i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf i gael cymeradwyaeth ar y cytundeb.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno cynnwys y Cais Bargen Twf datblygiadol mewn manylder gan mai ei brif bwrpas yw cyflwyno Trefniadau Llywodraethu ar gyfer ei fabwysiadu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y Cais Bargen Twf yn seiliedig ar themâu sydd yn unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae Cais Bargen Twf yn fuddsoddiad mawr mewn rhanbarth gan y Llywodraethau, gyda'r risgiau a buddion yn cael eu rhannu gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y rhanbarth. Mae cynhwysedd buddsoddiad yn ystyriaeth fawr wrth ddylunio'r Cais. Bydd goblygiadau llawn i gost y Fargen Twf posib yn cael ei adrodd yn ystod y broses penawdau'r telerau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid yw asesiad o'r effaith ar les yn ofynnol ar gyfer cymeradwyo Trefniadau Llywodraethu.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**

Mae datblygu cynnwys y Cais Bargen Twf yn broses gynhwysol gyda chyfranogiad sylweddol ar draws y sector cyhoeddus a busnes.

Mae cynghorwyr wedi cael eu briffio ar fwriadau strategol y Weledigaeth a Strategaeth Twf a datblygiad y Cais Bargen Twf

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae angen cytundeb llywodraethu i ffurfioli'r trefniadau i gefnogi'r model cydbwyllgor a ffafrir. Mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu clir a chadarn wedi'u sefydlu i gefnogi'r Cynnig Twf ar draws y rhanbarth. Dylai'r gost o weinyddu'r llywodraethu ehangach o amgylch y Cynnig fod yn gymesur â'r risgiau sy'n bodoli, ei gymhlethdod a'i raddfa. Bydd angen i'r cyngor a'i holl bartneriaid ystyried yn ofalus gamau datblygu nesaf Cynnig y Fargen Dwf fel y daw costau prosiectau posibl ac ystod y cyfraniadau ariannol yn fwy amlwg.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd goblygiadau llawn i gost y Fargen Twf posib yn cael ei adrodd yn ystod y broses penawdau'r telerau. Mae dadansoddiad risg wedi cael ei lunio'n rhan o fodelu'r achos busnes ar gyfer y rhaglenni a phrosiectau sy'n creu'r Cais datblygiadol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

S2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002